Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government
Committee

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

14 Rhagfyr 2011

Annwyl Carl

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Ddiogelwch Cymunedol**

Ar 5 Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sesiwn dystiolaeth ar ddiogelwch cymunedol i ymdrin ag effaith y toriadau mewn gwariant cyhoeddus ar blismona rheng flaen ac i ystyried y goblygiadau i gymunedau lleol a pholisi diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Yn ystod y sesiwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Awdurdodau Heddlu Cymru, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru ac undeb GMB.

Diben y llythyr hwn yw tynnu'ch sylw at y materion a godwyd gan y tystion; rhoi braslun o farn y Pwyllgor am y materion hynny; a cheisio'ch barn chi am y camau y gellid eu cymryd i ddelio â'r materion hynny.

**1. Effaith y toriadau mewn gwariant cyhoeddus ar blismona rheng flaen**

Clywodd y Pwyllgor fod holl heddluoedd ac awdurdodau heddlu Cymru yn ceisio lleihau effaith y toriadau i gyllid yr heddlu ar wasanaethau rheng flaen. Amcangyfrifwyd, fodd bynnag, y bydd tua 1,700 o swyddogion a staff yr heddlu yn diflannu dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant Cyhoeddus a bydd hynny, yn y pen draw, yn effeithio ar amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y gellir eu darparu. Eglurwyd wrth aelodau'r Pwyllgor mai dim ond un



Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : Communities.Equality&LocalGov@wales.gov.uk

ymhlith nifer o broblemau y mae'r heddlu yn eu hwynebu ar hyd o bryd yw'r toriadau hyn, ac mae'r newidiadau yn amodau a thelerau cyflogaeth swyddogion a staff yr heddlu a'r newidiadau sylweddol yn strwythurau llywodraethu'r heddlu hefyd yn peri pryder.

***Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cadw llygad gofalus ar y datblygiadau hyn a bydd yn cynnal sesiwn dystiolaeth arall yr adeg hon y flwyddyn nesaf i ystyried eu goblygiadau i Gymru.***

**2. Manylion am raglen ddiwygio Heddluoedd Cymru a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd ac i leihau costau**

Clywodd y Pwyllgor fod heddluoedd Cymru yn 'ailddiffinio ac yn ailbroffilio'r hyn a wnânt fel sefydliad'. Mae pob un o'r pedwar heddlu yn cymryd camau yn eu hardaloedd eu hunain i leihau effaith y toriadau ar wasanaethau rheng flaen ac i sicrhau nad ydynt yn llai gweladwy. Mae gan bob heddlu ei raglen effeithlonrwydd / diwygio'i hun. Clywodd y Pwyllgor yr ymddengys y bydd pob heddlu'n llwyddo i sicrhau arbedion o fewn yr amserlen a bennwyd. Mae sicrhau'r praesept treth gyngor yn hanfodol yn y cyswllt hwn. Cafwyd ymrwymiad cryf gan Awdurdodau Heddlu Cymru i gefnogi praesept treth gyngor o hyd at 5 y cant ond nid oedd yn fodlon gwarantu unrhyw beth. Holwyd a fyddai Comisiynwyr newydd yr Heddlu a Throseddu'n gefnogol i'r safbwynt hwnnw.

**3. Y goblygiadau i gymunedau lleol ac i bolisi diogelwch cymunedol yng Nghymru**

Awgrymwyd y gallai'r effaith ar gymunedau fod yn sylweddol o ystyried y newidiadau yn yr adrannau plismona a'r rhyng-gysylltiad â chynrychiolwyr etholedig ac awdurdodau lleol yn dilyn y newidiadau yn y strwythurau llywodraethu plismona. Clywodd y Pwyllgor y bydd y gostyngiad mewn adnoddau'n golygu y bydd cymunedau'n newid y ffordd y maent yn ystyried plismona a lefel gwasanaethau plismona.

***Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n agos â'r pedwar heddlu i sicrhau bod cymunedau'n rhan o broses ymgynghori barhaus er mwyn sicrhau bod eu hyder mewn plismona'n parhau.***

Dywedodd ACPO Cymru y byddai'r heddluoedd yn yr ardaloedd hynny lle bydd gorsafoedd heddlu'n cau, yn sicrhau y byddent yn cael eu gweld yn y gymuned, ac y byddai'r cymunedau lleol yn cael lleisio barn a bod yn rhan o unrhyw newidiadau a gynigir.

***Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r heddluoedd i fonitro effaith cau gorsafoedd heddlu gan y gall hyn, ynghyd â'r bwriad i gau llysoedd lleol, effeithio ar droseddwyr a dioddefwyr.***

Tynnodd Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru sylw at bryderon difrifol am effaith y toriadau ar y modd y caiff yr agenda diogelwch cymunedol ei roi ar waith yng Nghymru, o ran toriadau uniongyrchol ar wariant ar brosiectau a swyddi a ariennir gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a hefyd ar yr effaith ehangach ar wasanaethau cyhoeddus a'r arian ychwanegol y maent wedi gallu'i ddarparu. Awgrymwyd mai'r gwasanaethau a fydd yn dioddef fwyaf fydd prosiectau ymyrryd ac atal ym maes ieuenctid ac y bydd staff arbenigol, fel cydgysylltwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig, yn cael eu colli. Oherwydd y modd cymhleth y caiff cynlluniau diogelwch

cymunedol eu hariannu, lle rhennir costau rhai swyddi rhwng y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, bydd yn anodd asesu effaith y toriadau ar hyn o bryd; bydd yn dibynnu ar brif ffynhonnell y cyllid ar gyfer prosiectau a swyddi penodol.

***Yn ein barn ni, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth fanwl am y modd y mae'n bwriadu sicrhau bod digon o arian ar gael yn yr hirdymor ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau a swyddi. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi cynlluniau am y modd y mae'n bwriadu sicrhau bod Comisiynwyr newydd yr Heddlu a Throseddu a phaneli newydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i roi blaenoriaeth i'r materion hyn.***

Yn ogystal â'r pryderon a godwyd yng nghyswllt swyddi a gwasanaethau penodol a ariennir gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, clywodd aelodau'r Pwyllgor hefyd fod gwaith arbenigol yr heddlu, fel delio ag achosion o gam-drin domestig, mewn perygl. Yn benodol, roedd pryderon na fydd swyddogion yr heddlu'n gallu treulio digon o amser gyda dioddefwyr ac na fyddant yn gallu cynnig asesiad trylwyr o lefel y risg sy'n wynebu dioddefwyr a hynny oherwydd toriadau yn nifer eu staff a'r hyfforddiant a gynigir i swyddogion rheng flaen.

***Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd gan ACPO Cymru y bydd y pedwar heddlu yng Nghymru yn parhau i roi blaenoriaeth i gam-drin domestig yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn merched.***

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch bod ACPO Cymru yn gallu cadarnhau y byddai'r arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael ei ddefnyddio i ddarparu adnoddau ychwanegol ac i gryfhau gwasanaethau plismona'n hytrach nag i gynnal lefelau plismona presennol yn y gymdogaeth. Clywodd y Pwyllgor hefyd y bydd y pedwar heddlu yn cynnal niferoedd presennol eu Swyddogion Cymorth Cymunedol ac y caiff arian Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i ddyblu nifer y swyddogion hyn dros gyfnod o dair blynedd.

***Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am y modd y mae'n bwriadu monitro a gwerthuso i ba raddau y caiff yr arian hwn ei wario'n effeithiol a'i effaith ar gymunedau lleol, gan gynnwys faint o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a gaiff eu penodi a'u defnyddio, pa mor effeithiol ydynt a pha fath o achosion y byddant yn delio â nhw.***

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich sylwadau ar y pwyntiau a godwyd uchod.

Yn gywir

Ann Jones

**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair